YMDDIRIEDOLAETH JAMES PANTYFEDWEN

# ETIFEDDU'R TIR

*Darlith Syr David James 2005*

*gan*


Gwilym H Jones

Athro Emeritus, Prifysgol Cymru, Bangor


Traddodwyd ym
MHRIFYSGOL CYMRU, BANGOR

# ETIFEDDU'R TIR

Gellir cynnig mwy nag un rheswm pam y dylai pob un ystyriol gymryd diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd i'r tir. Fe ellid ychwanegu atynt wedyn resymau pam y dylai rhywun sy'n ymwneud â'r Beibl gymryd at y tir fel thema. Un rheswm amlwg yw'r sylw mawr sydd wedi ei roi i lygru'r amgylchedd, a hynny'n ei dro yn effeithio ar y tir a'i gynnyrch. Gyda chynnydd aruthrol mewn technoleg, fe gynhyrchwyd gwahanol lefelau o lygredd sy'n treiddio i'r tir ac yn debyg o fod yn effeithio ar y bobl sy'n dibynnu ar ei gynnyrch. Yn ei ddarlithiau Reith yn 1969 dau brif fodd o lygru'r byd a nodwyd gan Frank Fraser Darling,[1] sef strontium 90, sy'n gallu cyrraedd at borfa'r anifeiliaid a'n bwyd ninnau, a'r defnydd helaeth o blaladdwyr (*pesticides*), sydd mor hwylus at ddefnydd amaethwyr a garddwyr fel ei gilydd. Ond erbyn 2000, pan darddododd Dr Hefin Jones ei ddarlith yn y gyfres hon,[2] fe ychwanegwyd glaw asid, twll yn yr haen osôn, difa rhywogaethau trwy glirio'n ddi-reol eu cynefinoedd a newid hinsawdd y blaned a'r effaith tŷ gwydr.

Rheswm arall yw'r agwedd at y tir a ddangosir gan bolisïau amaethyddol gwledydd y gorllewin. Bu cryn sôn am or-gynhyrchu gan y gwledydd ffyniannus, yn enwedig o sylweddoli y gellir prynu'n rhatach o wledydd lle mae'r costau'n is, sy'n golygu symud tuag at sybsideiddio atal cynhyrchu. At hyn fe ddadleuir hefyd bod yn rhaid diogelu'r amgylchedd, ac o dan gynllun Tir Cynnal fe roddir grantiau i amaethwyr am ddiogelu cynefinoedd bywyd gwyllt.[3] Canlyniad hyn yw bod llai o dir i'w drin, ac eto poblogaeth y byd yn cynyddu.

Y trydydd rheswm yw'r cweryla di-baid sydd yn ein byd ynglŷn â pherchnogaeth tir. Daw hyn â ni i ganol union y maes yr wyf fi wedi bod yn troi ynddo ar hyd fy ngyrfa, sef y Beibl, ac yn fwy penodol yr Hen Destament. Does dim cweryla mwy cïaidd a barbaraidd na'r un yn y Dwyrain Canol rhwng Israeliaid a Phalestiniaid ynglŷn â pherchnogaeth Gwlad yr Addewid. Fel hyn yr ymffrostiodd Ariel Sharon:

> 'Rhaid inni eu taro, eu taro, eu taro'n ddi-arbed. Rhaid inni eu taro ymhob man – yn ein gwlad, yn y trefedigaethau Arabaidd a thros y môr'.[4]

O nodi'r rhesymau fel hyn, fe welir ar unwaith y gellir dilyn sawl trywydd. Y mae'r drws yn agored i drafodaeth wyddonol, neu i astudiaeth gymdeithasegol, neu ynteu i ystyried y goblygiadau gwleidyddol. Ag agwedd fwy cyfyng o lawer y mae a wnelo'r ddarlith hon, sef yr agwedd feiblaidd, ac yn fwy cyfyng eto agwedd yr Hen Destament at 'etifeddu'r tir'; ond fe obeithir cyn y diwedd y

gellir tynnu oddi wrth hynny rai egwyddorion perthnasol i'n cyfnod ni. Heb amheuaeth, y mae hanes pobl yr Hen Destament wedi ei glymu'n annatod wrth y tir yr oeddent yn byw arno.[5] Dibynnu ar yr Hen Destament sy'n gyfrifol am y cyfeiriadau at 'dir' a 'gwlad' yn y rhesymau a nodwyd yn barod, ac fe all hynny awgrymu i rai fy mod yn euog o aneglurder a dryswch meddwl. Yr un gair a ddefnyddir yn yr Hebraeg (hā'āreṣ) am 'ddaear' (*y nefoedd a'r ddaear,* Gen 1: 1), 'tir' (*cynhaeaf dy dir,* Lef 19:9) a 'gwlad' (*gwlad yr Aifft,* Salm 78: 12), ac fe fydd a wnelom mewn rhyw ffordd neu'i gilydd â phob un ohonynt.

## Addewid a Chyflawniad

Y man cychwyn yn sicr yw hen gyffes ffydd Israel yn Deut 26: 5-9:

> *Aramead ar grwydr oedd fy nhad; aeth i lawr i'r Aifft gyda mintai fechan, a byw yno'n ddieithryn, ond tyfodd yn genedl fawr, rymus a lluosog. Yna bu'r Eifftiaid yn ein cam-drin a'n cystuddio a'n cadw mewn caethiwed caled. Wedi inni weiddi ar yr ARGLWYDD, Duw ein hynafiaid, fe glywodd ein cri, a gwelodd ein cystudd a'n llafur caled a'n gorthrwm. Daeth â ni allan o'r Aifft â llaw gadarn a braich estynedig a chyda dychryn mawr a chydag arwyddion a rhyfeddodau. Daeth â ni i'r lle hwn, a rhoi inni'r wlad hon, gwlad yn llifeirio o laeth a mêl.*

Tri pheth sy'n sefyll allan yn hanes Israel yn ôl y gyffes ffydd: cyfnod nomadaidd y tadau gynt; caethiwed yr Aifft a'r waredigaeth oddi yno; y mynediad i wlad Canaan. Y geiriau allweddol yw d*aeth â ni i'r lle hwn, a rhoi inni'r wlad hon*. Hwn yw un o'r syniadau sylfaenol yn y cyflwyniad o draddodiadau cynnar Israel; rhodd Duw i'w bobl oedd Canaan, cael y wlad a wnaethant.

'Gwlad yr Addewid' yw un o'r enwau ar y wlad, a'r rheswm yw bod meddiannu'r wlad yn rhan o'r addewid a roddwyd ar ddechrau'r cyfnod crwydrol, pan symudodd Abram o Fesopotamia ar hyd y Cilgant Ffrwythlon nes dod i wlad Canaan:

> *Dos o'th wlad, ac oddi wrth dy dylwyth a'th deulu i'r wlad a ddangosaf i ti* (Gen 12: 1).

Pwysleisir drwy'r hanes i gyd mai Duw *a ddaeth â thi o wlad y Caldeaid, i roi'r wlad hon i ti i'w hetifeddu* (Gen 15: 7). Gwlad lle'r oeddent yn crwydro ynddi oedd hi i ddechrau, ond yn y man fe fyddai'n wlad y byddent yn ei chael yn etifeddiaeth ac yn ei meddiannu: *rhoddaf y wlad yr wyt yn crwydro ynddi, sef holl wlad Canaan, yn etifeddiaeth dragwyddol i ti ac i'th ddisgynyddion ar dy ôl* (Gen 17: 8). Ail-adroddir yr addewid droeon yn y traddodiadau am hanes cynnar Israel. Ym Methel fe ddywedir wrth

Jacob *rhoddaf y tir yr wyt yn gorwedd arno i ti ac i'th ddisgynyddion...dof â thi'n ôl i'r wlad hon* (Gen 28: 13,15). Yn nes ymlaen yn yr hanes fe ail-adroddir yr addewid unwaith eto, *Rhof i ti y wlad a roddais i Abraham ac Isaac, a bydd y wlad i'th hil ar dy ôl* (Gen 35: 12). Heb ymhelaethu, ystyriai'r traddodiadau cynnar mai gwlad a addawyd i'r Israeliaid oedd gwlad Canaan.

Pan symudir ymlaen o ddyddiau'r addo i gyfnod y cyflawni yr un peth yn union a bwysleisir. Wedi deugain mlynedd o grwydro mewn anialwch, heb dir ac heb feddiant, deuir o'r diwedd at afon Iorddonen, sef terfyn y wlad i'r dwyrain, ac at y foment fawr i groesi drosodd. Ac ar y trothwy megis, pwysleisir eto mai rhodd arbennig oedd y wlad yma yr oeddent ar groesi trosodd i'w meddiannu; gwlad ydoedd nad oedd yr Israeliaid wedi gwneud dim oll i'w chael:

> *Yna bydd yr ARGLWYDD dy Dduw yn dod â thi i'r wlad y tyngodd i'th dadau, Abraham, Isaac a Jacob, y byddai'n ei rhoi i ti, gwlad o ddinasoedd mawr a theg nad adeiladwyd mohonynt gennyt, hefyd tai yn llawn o bethau daionus na ddarparwyd mohonynt gennyt, a phydewau na chloddiwyd gennyt, a gwinllannoedd ac olewydd na phlannwyd gennyt* (Deut 6: 10-11).

Mae'n wir yr eir i eithafion ambell dro wrth ddisgrifio'r rhodd yr oedd Israel yn ei derbyn:

> *Oherwydd y mae'r ARGLWYDD eich Duw yn dod â chwi i wlad dda, gwlad ag ynddi ffrydiau dŵr, ffynhonnau a chronfeydd yn tarddu yn y dyffrynnoedd ac ar y mynyddoedd; gwlad lle mae gwenith a haidd, gwinwydd, ffigys a phomgranadau, olewydd a mêl, gwlad lle cewch fwyta heb brinder, a lle ni bydd arnoch angen am ddim; gwlad y mae ei cherrig yn haearn a lle byddwch yn cloddio copr o'i mynyddoedd* (Deut 8: 7-9).

Dyna'n sicr fynd ati'n rhy frwdfrydig i ganmol y rhodd yr oeddent wedi ei chael. Y mae unrhyw un sydd wedi crwydro trwy wlad yr addewid yn gwybod mor afreal a phell oddi wrth y gwirionedd yw'r darlun delfrydol yna.

Cyn gadael y pwynt yma am y tir yr aeth Israel iddo fel gwlad yr addewid, y mae'n rhaid nodi fod y thema yn gorffwys yn esmwyth y tu mewn i batrwm ehangach o lawer, sy'n ymestyn dros y cyfan o syniadaeth yr Hen Destament, ac ymlaen i'r Testament Newydd hefyd, sef y patrwm o addewid a chyflawniad.[6] Fel y crynhowyd y cyfan gan Walther Zimmerli, 'Pan daflwn olwg dros y cyfan o'r Hen Destament, fe'n cawn ein hunain yng nghanol hanes mawr y symud o addewid i gyflawniad'.[7]

Y mae'r darlun o 'etifeddu'r tir' a gyflwynir yn yr Hen Destament yn un clir, pendant a di-amwys. Cychwynnodd llwythau Israel eu hynt fel pobl grwydrol, ond daethant i mewn i wlad Canaan a chael tir, a meddiannu gwlad iddynt eu hunain. Ond cawsant hynny fel rhodd gan Dduw. Y mae'r darlun hwn yn ffitio i'r dim i'r cynllun cyfan a geir trwy'r Beibl i gyd. Ond eto wrth ystyried y darlun hwn yng nghyd-destun gweddill yr Hen Destament, ac yng ngoleuni astudiaethau o'r cefndir ac o'r cyfnod, fe ddown at anawsterau. Rhaid yn awr roi ystyriaeth i rai o'r anawsterau hynny.

## Cael a chymryd

Wrth ddarllen trwy hanesion y meddiannu ni ellir osgoi teimlo tyndra rhwng y syniad mai gwlad wedi ei chael oedd hi ac mai llwythau Israel oedd wedi dod i mewn a chymryd y tir. Ar y naill law, pwysleisir mai rhodd Duw ydoedd, ond ar y llaw arall ceir hanesion am Israel yn ymladd yn galed i gael meddiant o'r tir. Gyda'r addewid *i'th ddisgynyddion y rhoddaf y wlad hon* ceir hefyd ddisgrifiad ohoni fel *gwlad y Ceneaid, y Cenesiaid, y Cadmoniaid, yr Hethiaid, y Peresiaid, y Reffaimiaid, yr Amoriaid, y Canaaneaid, y Girgasiaid a'r Jebusiaid* (Gen 15: 19-21). Ac fe ymddengys mai'r sefyllfa real oedd bod yr Israeliaid wedi gorfod ymladd yn erbyn y bobl hyn er mwyn cymryd eu tiroedd oddi arnynt.[8] Berf a ddefnyddir yn gyson wrth gyfeirio at yr hyn a ddigwyddodd i'r bobloedd eraill hyn oedd eu bod wedi 'eu gyrru allan'. Yr argraff a roddir yn llyfrau Numeri, Deuteronomium a Josua yw i lwythau Israel, fel un gŵr, dan arweiniad Josua, groesi'r Iorddonen a meddiannu'r wlad yn gyfan gwbl ar unwaith. Nodir y llwyddiant ysgubol hwnnw fel hyn yn llyfr Josua:

> *Rhoddodd yr ARGLWYDD i Israel yr holl wlad a addawodd i'w hynafiaid. Wedi iddynt ei meddiannu ac ymsefydlu ynddi, rhoddodd yr ARGLWYDD ddiogelwch iddynt o bob tu...ni allodd yr un o'u gelynion eu gwrthsefyll oherwydd rhoddodd yr ARGLWYDD hwy oll yn eu dwylo* (Jos 21: 43-44).

Un anhawster gyda'r darlun hwn yw fod yn y Beibl ei hun fersiwn arall sy'n dra gwahanol, sef fersiwn llyfr y Barnwyr. Y mae pennod gyntaf y llyfr hwnnw yn gwbl allweddol, gan ei bod yn awgrymu mai llwyddo weithiau'n unig yr oedd y llwythau, a'u bod dro arall yn aflwyddiannus. Dyma adnod neu ddwy o'r bennod:

> *Yr oedd yr ARGLWYDD gyda Jwda, a meddiannodd y mynydd-dir, ond ni allodd ddi-sodli trigolion y gwastadedd am fod ganddynt gerbydau haearn* (adn.19).
>
> *Ond am y Jebusiaid oedd yn byw yn Jerwsalem, ni yrrodd y Benjaminiaid hwy allan* (adn.21).

Ceir adran gyfan yn y bennod gyda'r teitl 'Pobl nas Disodlwyd gan yr Israeliaid', ac yr oedd cryn ugain ohonynt, yn cynnwys rhai o'r dinasoedd pwysicaf yn y wlad o safbwynt strategaeth concwerwyr. Nid darlun o lwythau unedig yn dod i mewn o dan un arweinydd i feddiannu'r wlad gyfan sydd yma, ond llwythau unigol, ar eu pennau eu hunain, neu mewn cyd-weithrediad ag un neu ddau arall, yn ymosod yma ac acw, a hynny'n digwydd yn ysbeidiol. Cawn Jwda yn dweud wrth Simeon *Tyrd gyda mi i'm tiriogaeth...ac mi ddof finnau gyda thi* (Barn 1:3). Ymosodiadau di-gyswllt oedd y rhain ac nid rhan o ymgyrch unol gan y llwythau i gyd. Mewn llawer man yr oedd yr Israeliaid yn gorfod cyd-fyw â thrigolion eraill y wlad, ac ymddengys felly fod amrywiaeth o bobl yn byw yng ngwlad Canaan, hyd yn oed ar ôl i Israel ei meddiannu.[9] O edrych yn fanylach ar y patrwm, ceir mai ym mynydd-dir y canolbarth yr oedd yr Israeliaid wedi cael mwyaf o lwyddiant, a hyd yn oed yn y fan honno yr oedd angen cryn ymdrech i lwyddo i ddal gafael yn y tir heb ei golli. Y mae'n amlwg nad oeddent wedi llwyddo i gymryd rhai o gadarnleoedd pwysicaf y wlad, ac oherwydd hynny darlun cymysg iawn a geir o'r meddiannu; yr oeddent yn llwyddo lle'r oedd hynny'n bosibl, ac yn methu mewn mannau eraill. Berf ddiddorol iawn yw'r ferf *yāraš* yn yr Hebraeg; 'etifeddu' yw ei hystyr sylfaenol, ond fe'i defnyddir weithiau gyda'r awgrym bod 'etifeddu' yn golygu 'etifeddu yn lle rhywun arall'. Yr oedd 'meddiannu' yn golygu 'dad-feddiannu' rhai oedd yno'n barod. Nid bob amser yr oedd hynny'n hawdd ac nid bob tro y caent lwyddiant. Y mae'n amlwg bod tensiwn rhwng delfrydiaeth a realaeth yn y fan hon; y darlun delfrydol yw bod Duw wedi rhoi'r tir i'w bobl, ond y darlun realistig yw eu bod wedi gorfod ymladd am y tir, weithiau'n llwyddiannus ac ar dro'n aflwyddiannus.

Lle'r oedd llwyddiant, y mae'r adroddiadau beiblaidd yn priodoli hynny i Dduw. Yr oeddent trwy hynny yn gallu honni mai cael y tir yn etifeddiaeth yr oeddent. Fe leddfir peth ar y syniad mai wedi cymryd mewn ymgyrchoedd rhyfelgar yr oedd y meddianwyr yma a ddaeth dros yr Iorddonen trwy gyflwyno'r holl fuddugoliaethau fel gwaith gorchestol Duw. Amddifadir y bobl, eu harweinwyr a'u byddinoedd o unrhyw glod yn yr ymgyrchoedd i feddiannu, ac fe briodolir pob llwyddiant i waith Duw.[10] Pwysleisir yn yr hanesion hyn bod Duw yn y frwydr yn sicrhau buddugoliaeth i'w bobl. Haerwyd mai ystyr yr enw 'Israel' yw 'y mae Duw'n rhyfela', ac ar sail hynny honnir mai gwersyll rhyfel oedd crud y genedl a'i chysegr hynaf.[11] Dyna pam y cyfeirir yn yr adroddiadau at *ryfeloedd yr ARGLWYDD* (Num 21: 14), at y bobl fel *byddin yr ARGLWYDD* (Barn 5:11), ac at y cadfridog fel erfyn yn llaw Duw, fel y gwneir yn y rhyfelgri *Cleddyf yr ARGLWYDD a Gideon* (Barn 7: 20). Nodir natur y Rhyfel Sagral, fel y'i gelwir, yn llyfr Deuteronomium:

> *Pan fyddi'n mynd allan i ryfel yn erbyn dy elynion, ac yn canfod meirch a cherbydau a byddin, a'r rheini'n gryfach na'th rai di, paid â'u hofni, oherwydd gyda thi y mae yr ARGLWYDD dy Dduw, a ddaeth â thi i fyny o wlad yr Aifft. Wrth iti ddynesu i'r frwydr, y mae'r offeiriaid i ddod ymlaen ac annerch y fyddin, a dweud wrthynt, "Gwrandewch, Israel, yr ydych ar fin ymladd brwydr yn erbyn eich gelynion; peidiwch â gwangalonni, nac ofni, na dychryn nac arswydo rhagddynt, oherwydd y mae'r ARGLWYDD eich Duw yn mynd gyda chwi, i frwydro trosoch yn erbyn eich gelynion, ac i'ch gwaredu"* (Deut 20: 1-4).

Ni ellir yma fynd ar drywydd pob agwedd ar y syniad o Ryfel Sagral sydd yn yr Hen Destament, ac yn yr hen fyd yn gyffredinol o ran hynny.[12] Digon yw nodi mai'r cwestiwn sylfaenol yw hwn: A fu erioed y fath beth â Rhyfel Sagral yn dilyn y patrwm hwn a awgrymir yn y Beibl? Efallai i'r syniad darddu o'r gred hynafol fod yna bersonau charismataidd, a oedd dan ysbrydoliaeth ddwyfol yn cael llwyddiant anarferol mewn ymgyrchoedd a brwydrau yn erbyn eu gelynion. Yn nes ymlaen aed ati i roi trefn a ffurf i'r rhyfeloedd a ymladdodd Israel; trwy ddod â gwahanol ddefodau i gysegru'r rhyfel i mewn i'r patrwm pwysleisiwyd mai Duw oedd yn rhoi'r buddugoliaethau. Y cam olaf oedd gweithio'r fformiwlâu hyn i mewn i'r adroddiadau beiblaidd am Israel yn ymladd ei ffordd i mewn i wlad Canaan. Yr oedd hyn yn ffitio i mewn i'r dim i'r hanes, gan fod y syniad o Ryfel Sagral yn cadarnhau'r gred mai Duw oedd yn rhoi'r wlad i'w bobl.

## Israel yn goresgyn?

Ceir cyfeiriadau yn y testunau beiblaidd at *Israel gyfan* (Deut 31: 7), *plant Israel* (Jos 1: 2), neu yr holl genedl (Jos 4: 1) yn croesi'r Iorddonen. Cyfeirir hefyd at *y tiroedd a gafodd yr Israeliaid yn etifeddiaeth yng ngwlad Canaan* (Jos 14: 1), gyda'r awgrym i'r wlad gyfan gael ei rhannu'n rhandiroedd, a phob un o'r deuddeg llwyth yn cael ei etifeddiaeth ei hun. Er y manylion a roddir am rannu'r wlad a etifeddwyd rhwng y llwythau, dylid cofio mai pwyslais y darlun beiblaidd yw i Dduw roi'r wlad gyfan yn etifeddiaeth i'w bobl, ac felly nad oedd yr un o'r llwythau nac unrhyw unigolyn ychwaith yn gallu ystyried fod ganddo hawl ar y tir.[13]

Bu amheuaeth ers blynyddoedd bellach ynghylch cywirdeb y darlun hwn o etifeddu'r wlad. Y rheswm pennaf am hynny oedd yr awgrym na phrofodd pob un o'r deuddeg llwyth yr ecsodus o'r Aifft, y daith hir trwy'r anialwch na'r croesi i Ganaan i gymryd meddiant o'r tir. Yr Almaenwyr Albrecht Alt[14] a Martin Noth[15] a fu wrthi yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf yn ymchwilio i'r traddodiadau beiblaidd am yr ymsefydlu yng Nghanaan, gan roi sylw arbennig i'r gwahanol restrau o'r llwythau sy'n cael eu cynnwys. Eu casgliadau yn syml oedd nad yw'r

darlun o genedl gyfan Israel yn croesi'r Iorddonen ac yn meddiannu gwlad yr addewid yn un cywir. Fe ddigwyddodd dau symudiad mawr i mewn i Ganaan cyn yr ymosodiad gan y llwythau a ddaeth i mewn o'r dwyrain dros yr Iorddonen ac ymsefydlu yng nghanol y wlad. Eisoes yr oedd llwythau Lea a'r gordderchwragedd wedi dod i mewn i dde'r wlad ac ymsefydlu yno; yr oeddent yn gwlwm o chwe llwyth gyda'u canolfan yn Sichem. At hynny yr oedd tri llwyth arall, Reuben, Simeon a Lefi, wedi ymsefydlu fwy i gyfeiriad y gogledd. O dderbyn y dadansoddiad hwn, y mae'r darlun o Israel gyfan yn meddiannu gwlad yr addewid wedi ei chwalu'n llwyr. Yr unig lwythau a ddaeth dros yr Iorddonen ac ymsefydlu yng nghanolbarth y wlad oedd llwythau Rachel, sef Joseff a Benjamin. Yn ôl Martin Noth fe ffurfiodd y llwythau gwahanol hyn gwlwm, neu gynghrair, o ddeuddeg llwyth ar fodel y cynghreiriau llwythol y gwyddom am eu bodolaeth yng ngwlad Groeg a'r Eidal. Bu llawer iawn o feirniadau ar ddamcaniaethau Alt a Noth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er hynny, deil un pwynt yn glir a safadwy: ni ellir meddwl bellach am y genedl gyfan yn symud gyda'i gilydd yr un pryd i gymryd meddiant o wlad yr addewid; rhaid yn hytrach feddwl am y llwythau, yn unigol neu yn grwpiau, yn dod i Ganaan ar wahanol adegau ac o wahanol gyfeiriadau. Cywirach efallai yw meddwl amdanynt fel grwpiau gwasgaredig o fugeiliaid yn byw yn deuluoedd gyda'i gilydd yng ngwlad Canaan; yr oedd y gwahanol glymau hyn o deuluoedd yn gofalu am eu preiddiau yn y mynydd-dir, ar lechweddau'r mynyddoedd ac mewn dyffrynnoedd anghysbell. Perthynas lac oedd rhwng y grwpiau hyn ar y dechrau, ac nid oeddent o bell ffordd yn llwythau unedig nac yn genedl o dan un arweinydd.[16]

Oherwydd yr amheuaeth ynghylch y darlun traddodiadol o'r genedl yn dod i mewn, yn disodli'r trigolion oedd yno'n barod ac yn meddiannu'r wlad iddynt eu hunain, rhaid gofyn ymhellach a ellir derbyn y syniad i'r Israeliaid oresgyn y wlad. Y mae astudiaethau o'r cefndir ac o'r cyfnod wedi bwrw cryn amheuaeth ar yr holl syniad o gamu trosodd o fywyd crwydrol i fywyd sefydlog, fel y gwnaeth Israel pan ymsefydlodd yng ngwlad yr addewid. Ar sail astudiaethau hanesyddol a chymdeithasegol, fe ddadleuir gan rai nad dyna a ddigwyddodd. Datblygiad diweddar yn hanes y Dwyrain Canol, meddir, oedd y symudiad o grwydro bugeiliol i amaethu sefydlog. Yn wir, yn gwbl groes i hynny y digwyddodd pethau; datblygu'n ddiweddarach o amaethu sefydlog a wnaeth bugeilio symudol.[17] Rhaid felly troi cefn ar y syniad yma o bobl a fu'n crwydro fel bugeiliaid yn symud i mewn i oresgyn gwlad ac ymsefydlu yno i batrwm gwahanol ar ôl dad-feddiannu'r trigolion gwreiddiol. Darlun gwahanol iawn yw'r un a gynigir mewn astudiaethau diweddarach. Awgrymir bod llwythau gwerinol yn byw yn y wlad ac yn ei hamaethu, ond iddynt yn y man godi yn erbyn y dosbarth élite oedd yn rheoli'r wlad o'r gwladwriaethau dinesig. Gwrthryfel ffermwyr yn erbyn y

dinasoedd ydoedd felly. Torrodd y ffermwyr yn rhydd o'u cysylltiad â'r dinasoedd gwladwriaethol oedd yn rheoli yng Nghanaan a sefydlu math gwahanol o gymdeithas. Yn lle sôn am oresgyniad neu fewnlifiad o'r tu allan, rhaid meddwl bellach am wrthryfel neu wrthdystiad o'r tu mewn.[18] Y symudiad hwnnw, meddir, a roddodd fod i Israel. Arwain astudiaethau cymdeithasegol ac anthropolegol at wahanol fodelau i gyfleu'r hyn a allai fod wedi digwydd yng Nghanaan. Un model yw hwn o wrthryfel mewnol. Model arall yw'r un o wrthgilio neu ddianc oddi wrth y dadfeiliad oedd yn digwydd yn nhrefn y gwladwriaethau dinesig.[19] Symudiadau diweddarach fel hyn a hybodd y bywyd nomadaidd. Os gwir y dadansoddiad hwn o wrthryfela neu gilio oddi wrth fywyd sefydlog, codir amheuaeth ynghylch y darlun beiblaidd o lwythau crwydrol yn dod i mewn o'r anialwch ac yn ymsefydlu yn y wlad a sicrhau bywyd sefydlog. Yn wyneb yr astudiaethau hyn, sy'n seiliedig ar ddadansoddiadau cymdeithasegol ac anthropolegol, y mae'n anodd dal at y model beiblaidd o lwythau nomadaidd yn symud i mewn, ac wedi meddiannu'r tir yn dewis bywyd sefydlog yn y wlad a gawsant.

## Dros y terfynau

Mater arall cwbl wahanol i'r rhai a drafodwyd eisoes yw bod Israel ei hun ymhen amser wedi cymylu llawer ar y syniad o'r tir a gafodd yn etifeddiaeth. Yn y traddodiadau cynnar fe nodir yn glir derfynau'r etifeddiaeth. Yr oedd llwythau Reuben, Gad a hanner llwyth Manasse wedi cael tir i'r dwyrain o afon Iorddonen. Yna wedi delio â hwy diffinir yn glir beth fydd *terfynau'r wlad a gewch yn etifeddiaeth* (Ex 34:2). Nodir yn fanwl i ble'r oedd y tir i ymestyn tua'r de a'r gogledd; enwir y Môr Canoldir yn derfyn i'r gorllewin a dyffryn Iorddonen yn derfyn i'r dwyrain. Cyfeirir droeon at yr etifeddiaeth fel y wlad oedd yn ymestyn *o Dan hyd Beerseba* (1 Bren 4: 25). Hon oedd y wlad a roddwyd yn etifeddiaeth.

Fel yr â'r hanes rhagddo, fodd bynnag, gwelir nad oedd Israel yn barod i gadw at derfynau'r etifeddiaeth, ond ei bod yn gwybod am yr awch i ymestyn y tu hwnt ac i feddiannu mwy. Yr enghraifft fwyaf nodedig o hyn yw'r brenin Dafydd, a oedd yn gyfrifol yn ôl rhai haneswyr am 'ymestyn ymerodrol'.[20] Llwyddodd i gymryd meddiant o'r parseli amrywiol hynny o'r wlad nad oedd llwythau Israel wedi eu cymryd hyd yn hyn. Y goncwest fwyaf nodedig ohonynt i gyd oedd cymryd Jerwsalem oddi ar y Jebusiaid (2 Sam 5: 6-10). Llwyddiant pwysig arall oedd darostwng y Philistiaid oedd wedi ymwthio i mewn i Ganaan o'r gorllewin dros y Môr Canoldir yr un pryd ag yr oedd yr Israeliaid yn dod i mewn o'r dwyrain dros afon Iorddonen. Buont yn ddraen yn ystlys yr Israeliaid am amser, nes i Dafydd yn y man eu trechu (2 Sam 5: 17-25).

Wedi'r ymgyrchoedd llwyddiannus hyn yn erbyn y Philistiaid, yr oedd Dafydd wedi cadarnhau meddiant yr Israeliaid o wlad Canaan. Ond yr oedd rhagor i ddilyn, gan i Dafydd fynd rhagddo i gymryd meddiant o diroedd eraill y tu hwnt i wlad yr addewid. I ddechrau gorchfygodd Moab, Edom ac Ammon, y tair teyrnas yr ochr draw i afon Iorddonen sy'n cyfateb fwy neu lai i deyrnas Iorddonen heddiw. Gwthiodd i fyny i'r gogledd hefyd, a chymryd dinasoedd gwladwriaethol yn y rhannau sy'n cyfateb i'r tiroedd a adwaenir heddiw yn Syria, ac yn wir aeth ymhellach i'r dwyrain na hynny (2 Sam 8: 1-14). Yr oedd amryw o resymau am lwyddiant Dafydd. Tua'r cyfnod yma, oddeutu 1000 CC, yr oedd newidiadau mawr ar droed yn hanes y Dwyrain Canol. Ymrannodd Ymherodraeth yr Aifft yn ddwy, ac felly gwanhaodd ei gafael ar Balestina. Yr un pryd yr oedd grym milwrol Asyria wedi dechrau edwino. Cyfrinach llwyddiant Dafydd oedd iddo gymryd mantais o'r newidiadau hyn a chynyddu ei ddylanwad a'i diroedd. Yn wir, oherwydd yr amrywiaeth o wledydd oedd dan ei lywodraeth gellir cyfiawnhau cyfeirio at 'ymerodraeth Dafydd'.[21]

Yn wyneb y datblygiadau hyn fe gyfyd nifer o gwestiynau. Aeth Dafydd ymhell dros derfynau'r tir a roddwyd ac ymestyn i diroedd eraill nad oeddent yn rhan o'r etifeddiaeth. Nid oes unrhyw awgrym yn y Beibl fod y tiroedd hyn ymhlith y rhai a roddwyd i Israel. Rhaid gofyn felly, Sut y gellir cyfiawnhau ehangu o'r fath? Gan nad oeddent yn rhan o'r etifeddiaeth, a oedd Israel felly yn euog o dreisio etifeddiaeth pobloedd eraill? Ac wrth wneud hyn onid oedd wedi cymylu, os nad dryllio'n llwyr, y syniad o gael tir yn etifeddiaeth?

## Y traddodiadau a hanes

Hyd yma sylwyd at yr anawsterau mewnol sy'n codi o edrych ar hanes meddiannu'r tir, amryw ohonynt yn dod i'r golwg oherwydd y croes-ddweud sydd yn y cymhlethdod o draddodiadau beiblaidd. Daw eraill i'r amlwg pan symudir oddi wrth y traddodiadau eu hunain at ffynonellau eraill, megis hanes, cymdeithaseg ac anthropoleg, a all bob un yn ei dro daflu golwg ar y cefndir a'r cyfnod. Yn wyneb y wybodaeth a ddaw o astudiaethau o'r fath fe'n gorfodir i ofyn beth yw natur a gwerth hanesyddol y cofnod beiblaidd am etifeddu'r tir.[22] Y mae hwn yn bwnc anferth ynddo'i hun, ac ni ellir yma ond codi cwr y llen ar y drafodaeth. Y man cychwyn naturiol yw gyda'r safbwynt traddodiadol sy'n honni mai'r defnyddiau sydd yn y Beibl yw'r ffynhonnell orau, yn wir yr unig ffynhonnell estynedig, i droi ati am hanes cynnar Israel. Bwrir amheuaeth ar y fath honiad gan y rhai sy'n dadlau mai'r unig ffynonellau di-duedd y gellir dibynnu arnynt yw archeoleg, anthropoleg ac astudiaethau hanesyddol a chymdeithasegol; o'r rhain, meddir, y ceir gwybodaeth annibynnol sydd heb ei lliwio

gan ystyriaethau crefyddol a diwinyddol. Yn y pegwn eithaf y mae'r rhai sy'n dadlau bod ysgolheictod beiblaidd yr Almaen a'r Amerig ers tua 1920 wedi dibynnu ar ragdybiaethau diwinyddol a gwleidyddol wrth fynd ati i ddisgrifio gorffennol Israel. Ar sail eu rhagdybiaethau fe luniodd yr ysgolheigion hyn ddarlun o'u dyfais eu hunain, ac nid oes a wnelo'r darlun hwnnw ddim mewn gwirionedd â hanes cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Palestina ei hun. Honnir mai damcaniaethau a dyfeisgarwch sydd y tu ôl i'r darlun.[23] Y mae hyn yn wir, nid yn unig am draddodiadau cynnar Israel, ond y mae'n ein gorfodi hefyd i ail-edrych ar deyrnasiad Dafydd a Solomon, ac o wneud hynny deuir i'r casgliad mai rhith hollol yw'r darlun o ymerodraeth Dafydd.[24] Eir ymhellach eto gan rai a dweud nad oes unrhyw dystiolaeth archeolegol i gadarnhau bodolaeth Dafydd a Solomon na'r holl ddisgynyddion a gysylltir â hwy.[25]

Safbwynt mwy cymhedrol yw'r un sy'n cyfaddef mai traddodiadau crefyddol y deuddeg llwyth yw'r rhai sy'n ymestyn o Abram hyd at y mynediad i Ganaan. Er hynny, y mae ynddynt elfennau hanesyddol, ac nid yw'r crynswth o draddodiadau a groniclir heb enghreifftiau o gyfatebiaeth â'r holl ddefnyddiau archeolegol a gloddiwyd yn y wlad. Rhaid cyfaddef felly nad 'hanes' fel y cyfryw sydd wedi ei ysgrifennu, ond eto ni ellir anwybyddu'r wybodaeth sydd ynddynt wrth drafod hanes y bobl a'r cyfnod. Disgrifir y traddodiadau gan rai fel dehongliad diwinyddol diweddarach o ddigwyddiadau cynharach.[26] Ni ellir eu galw yn 'hanes' mewn gwirionedd, gan mai crefyddol ydynt o ran tarddiad ac o ran amcan. Cynnyrch ffydd ydynt, ac ni fwriadwyd iddynt gofnodi na diogelu ffeithiau hanesyddol. Y mae mynnu eu hystyried fel adroddiadau hanesyddol yn dangos diffyg dealltwriaeth o natur a phwrpas y Beibl.[27] Ni ddeuir at hanes gwirioneddol nes dod at deyrnasiad Dafydd a Solomon. Fel y dadleuir gan James Barr,[28] ni fyddai neb yn mynd ati i ddychmygu'r holl hanesion sydd yn llyfrau Samuel a'r Brenhinoedd; yr hyn sydd wedi digwydd yma yw i'r holl ddefnyddiau oedd wrth law fynd trwy broses o adolygu a dehongli. Yn y fan yma felly y mae 'hanes Israel' yn cychwyn.[29] Gadewir y drafodaeth yn y fan hon. Ei harwyddocâd i bwrpas y ddarlith hon yw ei bod yn symud y traddodiadau am feddiannu'r wlad o gylch hanes Israel i gylch traddodiadau'r deuddeg llwyth oedd yn ymddiddori fwy yn eu hystyr grefyddol nac yn eu cywirdeb hanesyddol.

Y cwestiwn naturiol i'w ofyn felly yw: O ble daeth y traddodiad am feddiannu'r wlad? O gymryd yr awgrym mai dehongliad diwinyddol diweddarach o ddigwyddiadau cynharach sydd yma, gellir ystyried mai yng nghyfnod y gaethglud i Fabilon y rhoed hanes y meddiannu wrth ei gilydd. Y mae'r dyddiad hwn yn un arwyddocaol dros ben, gan fod Israel erbyn hyn wedi colli ei gwlad. Yr oedd wedi profi'r bygythiad a

adroddid yn gyson wrth fynd trwy hanes y meddiannu. Fel y collodd pobl eraill eu gwlad i Israel, yr oedd hithau mewn perygl o hyd o golli'r wlad a gafodd:

> *Os byddwch yn anghofio'r ARGLWYDD eich Duw ac yn mynd ar ôl duwiau eraill ac yn eu gwasanaethu ac yn ymgrymu iddynt, yna yr wyf yn eich rhybuddio heddiw y byddwch yn cael eich dinistrio'n llwyr* (Deut 8: 19).

Mewn rhai mannau disgrifir y dinistr yn gliriach: *byddwch chwithau'n darfod o'r wlad dda y mae'r ARGLWYDD ar fin ei rhoi ichwi* (Deut 11: 17). Pan ddaeth dyddiau colli'r tir, neges y proffwydi oedd mai Duw oedd yn gyrru ei bobl allan o Jerwsalem i Fabilon (Jer 29:20); *fe'u gyrrwyd allan o'u gwlad* (Esec 36: 20). 'Gyrru allan' y cenhedloedd a wnaed pan gafodd Israel feddiant o'r wlad; ei gyrru allan a gaiff hithau yn awr a cholli ei gwlad. Y colli hwn a wnaeth i Israel edrych yn ôl, a gosod allan ddiffiniad o'i pherthynas â'i gwlad ac â'i thir. Wrth edrych yn ôl y lluniodd ddiwinyddiaeth ei threftadaeth.

## Beth yw gwirionedd?

Rhaid yw gofyn yn awr beth yw gwerth y traddodiadau am feddiannu'r wlad? A yw'n gywir sôn o gwbl am werth ysgrifeniadau gyda'r fath arlliw crefyddol ar y ffordd y cyflwynir traddodiadau cynharach ? A oes gwerth i draddodiadau sy'n llawn diwinyddiaeth, neu, a defnyddio gair arall, yn llawn ideoleg?[30] Y cwestiwn creiddiol yw'r cwestiwn oesol hwnnw, 'Beth yw gwirionedd?' A yw gwirionedd o raid ynghlwm yn unig wrth gofnodiad sy'n llythrennol hanesyddol gywir ? Un math o wirionedd yw'r un sy'n dibynnu ar gywirdeb hanesyddol; math arall yw'r un sy'n cyflwyno dealltwriaeth o Dduw ac o'r byd.[31] Nid y cwestiwn 'A ddigwyddodd fel hyn?' sy'n bwysig, ond yn hytrach 'Pa wirioneddau a gyfleir?'[32] Gwnaed llawer , a hynny gyda chymeradwyaeth, o'r sylw mai 'Llyfr hanes yw'r Hen Destament. Darlunia hanes a ddaeth i fod trwy Air Duw, o'r creu hyd at ddyfodiad Mab y Dyn'.[33] Ond erbyn hyn teimlir anfodlonrwydd gyda gosodiad o'r fath. Teimlir bod y frawddeg yn awgrymu y gall fod dau hanes Israel, y naill yn hanes fel yr oedd a'r llall yn hanes fel yr oedd y dehonglwyr a'r darllenwyr yn ei weld yn faes lle'r oedd Duw'n gweithredu. Y cam cyntaf i ddod dros yr anhawster hwn yw cydnabod nad yw'r Beibl yn cynnwys hanes cyflawn Israel. Diamau fod llawer o elfennau yn hanes Israel na wneir cyfeiriad atynt o gwbl yn y Beibl. Cyfeiria James Barr[34] at hanes gwragedd, hanes rhai heb fod yn Israeliaid, a hanes amseroedd nad ydynt yn syrthio oddi mewn i gronoleg y Beibl. Hanes dethol ydyw, a diamau fod llawer o helyntion a digwyddiadau heb gofnod ohonynt o gwbl. Gellir ei ddisgrifio fel cofnod o'r atgofion a gadwodd Israel yn fyw ar ôl dethol o holl droeon a hynt ei gyrfa. Yr ail gam yw sylweddoli fod Israel wrth ddethol a

chroniclo'i hatgofion am fynegi ei hargyhoeddiadau – argyhoeddiadau ffydd, argyhoeddiadau diwinyddol, os mynner. A'r rhain oedd bwysicaf yng ngolwg Israel; cyhoeddi'r rhain oedd ei hamcan wrth roi atgofion o'r hanes. Dyma a ddigwyddodd ar ôl colli'r tir – bwrw golwg yn ôl dros atgofion am ddigwyddiadau, traddodiadau am yr hyn oedd wedi digwydd a thameidiau o hanes meddiannu'r tir. Wrth wneud hynny yr oeddent yn tanlinellu rhai gwirioneddau pwysig ac arhosol.

## Y gwirioneddau

Y gwirionedd sylfaenol a chanolog yn y cyfan a ddywedir am dir a gwlad yn y Beibl yw'r gwerth a welir ynddynt. Trwy'r syniad beiblaidd mai rhodd gan Dduw i Israel oedd y tir, ei fod wedi ei addo ac wedi ei roi, fe bwysleisir mor allweddol bwysig yw cael tir i'w feddiannu. Ac wrth gwrs, roedd yn werthfawr am fod ei angen. Y mae pob cymuned o bobl angen troedle, rhyw gilcyn o'r ddaear lle mae'n perthyn. Dyna'r syniad yn ei wedd Gymreig sydd yng ngeiriau Saunders Lewis 'Gwinllan a roddwyd i'm gofal...' ac eto gan Lewis Valentine 'Y winllan wen a roed i'm gofal i...' Angen lle ac angen gwreiddiau ydyw mewn gwirionedd.

Rhan ddiddorol o'r Hen Destament yw penodau 13-19 yn llyfr Josua, lle dangosir y gofal mawr a gymerwyd wrth rannu'r tir rhwng y llwythau. Y gorchymyn oedd *Rhanna'n awr y wlad hon yn etifeddiaeth i'r naw llwyth ac i hanner llwyth Manasse* (Jos 13: 7). Nodir yn fanwl y rhandiroedd oedd yn perthyn i bob tylwyth ac i bob llwyth. Ychwaneger at hyn wedyn yr arfer diddorol yn Israel o roi'r tir yn ôl i'w berchennog yn y flwyddyn Sabothol: *Yn y flwyddyn jwbili hon y mae pob un ohonoch i ddychwelyd i'w dreftadaeth. Ni ellir gwerthu tir yn barhaol...byddwch yn barod i ryddhau tir a werthwyd...* (Lef 25: 13,23). Drylliodd y brenhinoedd batrwm yr etifeddiaeth drwy gymryd tiroedd oddi ar eu perchnogion, fel y digwyddodd i winllan Naboth (1 Bren 21). Ond ym mhatrwm Eseciel o'r ad-drefnu wedi'r Gaethglud, gwelir fod adfer y tir yn mynd yn ôl eto at y drefn o etifeddu (Esec 47: 13 – 48: 29). Dyna pam y dywedir mai meddiannu'r tir yw un o themâu canolog, os nad y thema fwyaf canolog yn y Beibl.[35] Bu'r pwyslais yn y gorffennol ar 'weithredoedd nerthol' Duw yn hanes Israel, ond ceisiodd Walter Brueggemann symud peth ar y pwyslais trwy honni mai â lle ac â pherthyn i le y mae a wnelo'r Beibl yn bennaf.

Un o'r pethau sy'n dod yn fwy amlwg i'r rhai sy'n dadansoddi bywyd heddiw yw mor gryf ac mor andwyol yw'r teimlad o fod ar goll, yn ddi-gartref ac yn ddi-wreiddiau. Y mae erbyn hyn gymaint o bobl symudol, ac y mae'r teimlad o heb fod yn perthyn i le yn creu problemau cymdeithasol ac yn aml iawn yn creu dryswch seicolegol. Cyfeiria rhai at 'y meddwl di-gartref', ac at y profion nad yw'r angen am le sy'n gartref

yn cael ei ddiwallu gan fywyd mewn trefi mawr newydd a chyfundrefi anferth.[36] Mae rhywbeth yn drist yn y bobl sydd yn ceisio gwella bywyd trwy newid lle a methu cael bodlonrwydd. Mewn erthygl ddiweddar[37] fe ddisgrifiwyd rhai o'r cannoedd o Saeson sy'n ymfudo o Brydain i fyw yn Ffrainc, ac at y rheswm am hynny a roir gan rai, sef eu bod eisiau lle (*space*). Cyfaddefir yn aml na fyddant yn medru aros yn hir, ond eu bod am ddod yn ôl adref. Maent yn mynd i chwilio am le (*space*), ond wrth wneud hynny wedi colli cyswllt â lle (*place*) oedd yn gartref, lle maent yn perthyn a lle mae eu gwreiddiau.

O ystyried y cwlwm rhwng pobl â lle, â thir neu wlad, mae amddifadu rhywun o'i etifeddiaeth yn gwbl anfoesol, fel y pwysleisir yn hanes gwinllan Naboth. Sarnu ar eiddo pobl a'u hawliau yw cymryd oddi arnynt y lle sy'n gartref iddynt a lle mae eu gwreiddiau. Gwaetha'r modd fe ddigwyddodd yn Israel gynt, ac y mae'n dal i ddigwydd yn ein byd. Bwrw'r Indiaid allan wnaeth ymfudwyr Ewropeaidd i gymryd meddiant o diroedd America; perchenogi i'w mantais eu hunain wnaeth ymerodraethau Ewrop wrth feddiannu trefedigaethau; a'r un peth mewn ffordd arall a ddigwyddodd yn Nhryweryn.

Gwirionedd arall a ddaw i'r amlwg yw hwn: gan mai tir wedi ei gael yn etifeddiaeth ydyw, y mae cyfrifoldeb i edrych ar ei ôl, i'w warchod a'i ddiogelu. Sefydlir yr egwyddor hon yn gadarn yn hanes gardd Eden:

> *Cymerodd yr ARGLWYDD Dduw y dyn a'i osod yng ngardd Eden, i'w thrin a'i chadw* (Gen 2: 15).

Ystyr hynny yw ei fod yn cael ei defnyddio, ond ei fod hefyd i'w diogelu. Rhan o ddiwinyddiaeth y creu yw'r agwedd hon at y tir; y mae wedi ei roi yn etifeddiaeth i bwrpas, ac y mae cyfrifoldeb ar y sawl sy'n derbyn yr etifeddiaeth i'w hystyried fel ymddiriedaeth ac i ofalu amdani. Trefn ddiddorol yw'r un gyda'r flwyddyn Sabothol, pan roddid blwyddyn o orffwys i'r tir, sydd, wrth gwrs, yn rhan o'r gofal dros yr ymddiriedaeth

> *Ar y seithfed flwyddyn bydd y wlad yn cael Saboth o orffwys...nid ydych i hau eich meysydd nac i docio eich gwinllannoedd...y mae'r wlad i gael blwyddyn o orffwys* (Lef 25: 4-5).

Y mae gofyn dangos gofal a pharch at y tir. Cwbl annerbyniol yw unrhyw beth sy'n *halogi'r tir* (Jer 3: 1) ac yn *dwyn pechod ar y wlad* (Deut 24: 4). Syndod i ni efallai yw'r cyswllt a welai'r Beibl rhwng anfoesoldeb, yn enwedig anfoesoldeb rhywiol, a halogi'r tir. Yn Lefiticus 18 rhoddir rhestr bur faith o waharddiadau rhywiol, a'r rhybudd a roddir gyda'r rhestr yw y bydd y bobl trwy ddilyn y rhain yn *halogi'r tir*, a'r canlyniad,

*fe'i torrir ymaith o blith ei bobl* (Lef 18: 29). Trosedd arall a gondemnir yn hallt yw mwrdro, ac y mae lleiddiad i'w roi i farwolaeth:

> *Peidiwch â halogi'r wlad yr ydych yn byw ynddi; y mae gwaed yn halogi'r wlad, ac ni ellir gwneud iawn am y wlad y tywalltwyd gwaed ynddi, ond trwy waed y sawl a'i tywalltodd. Peidiwch â gwneud y wlad yr ydych yn byw ynddi yn aflan* (Num 35: 33-34).

Peth arall sy'n halogi'r ddaear yw torri cyfreithiau:

> *Halogwyd y ddaear gan ei phreswylwyr,*
> *am iddynt dorri'r cyfreithiau, newid y deddfau*
> *a diddymu'r cyfamod tragwyddol* (Esec 24: 5).

Y mae peidio â gofalu am y wlad yn weithred o ddilorni'r egwyddor mai etifeddiaeth a ymddiriedwyd dros dro ydyw.

Faint bynnag o wahanol ffyrdd o halogi'r ddaear a'r tir a welir yn y Beibl, a'r rheini gan amlaf yn rhai moesol, nid oes amheuaeth am yr egwyddor: ymddiriedaeth yw tir a gwlad, a chyfrifoldeb y sawl sy'n derbyn yr ymddiriedaeth yw ei gwarchod a'i diogelu. Nid oes angen yma ond cyfeirio'n ôl at rai o'r pethau a nodwyd ar y cychwyn ; trwy wahanol ffyrdd rydym yn llygru'r ddaear, yn peryglu ffrwythlondeb y tir ac yn methu yn ein cyfrifoldeb at yr hyn a ymddiriedwyd i'n gofal.

Fel cyfeiriwyd yn barod, nodyn oedd yn cael ei seinio'n glir yng nghlyw Israel oedd y bygythiad y gallai golli'r tir. Dyna'r nodyn yn Lef 18: 28:

> *Os byddwch chwi'n halogi'r tir, bydd yn eich chwydu chwithau fel y chwydodd y cenhedloedd oedd o'ch blaen chwi.*

Portreadir y dynged greulon o golli'r tir ar ei mwyaf erchyll a chïaidd gan rai o'r proffwydi. Yr oedd y dinistr a ddeuai fel bwyell fawr yn disgyn ar wreiddiau'r pren:

> *Fe'th wnaf yn ddiffeithwch*
> *ac yn ddinas anghyfannedd.*
> *Neilltuaf ddinistrwyr yn dy erbyn,*
> *pob un â'i arfau;*
> *fe dorrant dy gedrwydd gorau,*
> *a'u bwrw i'r tân* (Jer 22: 6-7).

Taith ryfedd oedd taith cenedl Israel; daeth o wlad yr Aifft i wlad yr addewid, ond oherwydd diffygion y bobl trodd honno'n wlad ffieidd-dra:

> *Dygais chwi i wlad gnydfawr,*
> *i fwyta ei ffrwyth a'i daioni;*
> *ond daethoch i mewn a halogi fy nhir,*
> *a gwneud fy etifeddiaeth yn ffieidd-dra* (Jer 2: 7).

Heb ymhelaethu rhagor digon yw dweud mai dyna'r perygl o hyd. Gall ymddygiad anghyfrifol eto halogi'r ddaear, a thrwy hynny ddifa moddion cynhaliaeth a hau peryglon yn y tir yr ydym yn dibynnu arno. I fynd yn ôl am funud at ddarlith y Dr Hefin Jones fe bwysleisir, gyda chyfeiriad at y llyfr *Only One Earth,* at yr angen mawr am ddangos gofal o'r byd a sylweddoli mor aruthrol yw'r grymusterau y gellir eu rhyddhau a'r rheini'n gallu difetha'n llwyr y drefn fregus sy'n dal y cyfan wrth ei gilydd.[38]

Pwnc sydd y tu allan i faes trafodaeth y ddarlith hon yw'r ffordd y deliwyd â'r thema hon yn y Testament Newydd. Fe Gristioneiddiwyd y cyfan a throi oddi wrth dir a gwlad at deyrnas nefoedd a'r bywyd newydd yng Nghrist.[39] Ond fel y dengys Paul y mae a wnelo'r bywyd newydd hwnnw â thynged y greadigaeth gyfan (Rhuf 8: 18-25).

## Nodiadau

1 F.F. Darling, *Wilderness and Plenty*, Reith Lectures, BBC 1969

2 Hefin Jones, *Crefydd, y Cread a Chadwraeth*, Darlith Syr D.J. James 2000, Abertawe, Tŷ John Penry, 2000

3 *Gwlad*, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 31, Awst 2004

4 R. Garaundy, *The Case of Israel. A Study of Political Zionism*, Shorouk, 1983, 154

5 S. Herrmann, *A History of Israel in Old Testament Times*, London: SCM Press,1975, 6

6 H. Weippert, '"Histories" and "History". Promise and Fulfillment in the Deuteronomistic Historical Work', *Reconsidering Israel and Judah*, ed. G.N. Knoppers and J.G. McConville, Winona Lake: Eisenbrauns 2000, 47-61

7 W. Zimmerli, 'Promise and Fulfillment', *Essays on Old Testament Interpretation*, ed. Claus Westermann, London: SCM Press, 1963, 111-112

8 Ni wneir gwahaniaeth i'r darlun cyfan wrth awgrymu mai camau heddychlon a gymrwyd yn gyntaf, ac yna'n ddiweddarach symud tuag at frwydrau. Gw. M. Weippert, *The Settlement of the Israelite Tribes in Canaan. A critical Survey of Recent Scholarly Debate*, London: SCM Press, 1971, 6

9 Cydnabu A.S. Balfour yr amrywiaeth hwn sydd yn parhau yn y wlad yn ei ddatganiad enwog ar Dachwedd 2, 1917: *His Majesty's Government views with favour the establishment in Palestine of a national home for the Jewish people...it being clearly understood that nothing shall be done which may prejudice the civil and religious rights of the existing non-Jewish communities in Palestine.*

10 G.E. Mendenhall, 'The Hebrew Conquest of Palestine', *Biblical Archaeologist* 25, 1962, 76

11 J. Wellhausen, *Prolegomena to the History of Israel*, Edinburgh: A&C Black, 1885, 16

12 Gw. ymhellach G. von Rad, *Der Heilige Krieg im alten Israel*, Zürich, 1951; R. Smend, *Yahweh War and Tribal Confederation*, Nashville: Abingdon, 1970; Gwilym H. Jones, 'The concept of Holy War', *The World of Ancient Israel. Sociological, anthropological and political perspectives*, ed. R.E. Clements, Cambridge: University Press, 1989, 299-321

13 G.E. Wright, 'The Old Testament', *The Book of the Acts of God: Christian Scholarship interprets the Bible*, London: Duckworth, 1960,8-9. Am fanylion pellach am reolau etifeddiaeth gw. Eryl W. Davies, 'Land; its rights and privileges', *The World of Ancient Israel. Sociological, anthropological and political perspectives*, ed. R.E. Clements, Cambridge: University Press, 1989, 349-369

14 A. Alt, 'The Settlement of the Israelites in Palestine', *Essays on Old Testament History and Religion*, Oxford: Blackwell, 1966, 133-69 (Ymddangosodd gyntaf mewn Almaeneg yn 1925).

15 M. Noth, *The History of Israel*, London: A&C Black, 2nd edition 1959, 68-109, seiliedig ar nifer o weithiau a gyhoeddwyd ynghynt mewn Almaeneg.

16 S. Herrmann, *op.cit.*, 112

17 K.W. Whitelam, *The Invention of Ancient Israel. The silencing of Palestinian history*, London: Routledge, 1996,78

18 J.D. Martin, 'Israel as a tribal society', *The World of Ancient Israel. Sociological, anthropological and political perspectives*, ed. R.E. Clements, Cambridge: University Press, 1989, 95-117, lle ceir trafodaeth ar gyfraniadau diweddar gan G.E. Mendenhall, C.H.J. de Gus a N.K. Gottwald

19 G.E. Mendenhall, 'Ancient Israel's Hyphenated History', *Palestine in Transition. The Emergence of Ancient Israel*, ed. D.N. Freedman and D.F. Graf, Sheffield: Almond Press, 1983

20 J. Alberto Soggin, 'The Davidic Solomonic Kingdom', *Israelite and Judaean History*, ed. J.H. Hayes and J. Maxwell Miller, London: SCM Press, 1977, 34 9

21 Dyma'r term a ddefnyddir gan A. Alt, 'Das Grossreiches David', *Theologische Literaturzeitung*, lxxx, 1950, 213-20. Gwrthodir y syniad o ehangu ymherodrol treisgar gan y rhai sy'n dadlau mai ehangu damweiniol ac amddiffynnol ydoedd, gw. C.Meyers, 'The Israelite empire: in defense of King Solomon, *Background to the Bible*, ed. M.P. O'Connor and D.N. Freedman, Winona Lake: Eisenbrauns, 1987, 184

22 J.D. Martin, *op.cit.*, 114

23 K.W. Whitelam, *op.cit.*, 71-121

24 K.W. Whitelam, *op.cit.*, 122-175

25 E. Leach, 'Anthropological approaches to the study of the Bible during the twentieth century', *Structuralist Interpretation of Biblical Myth*, ed. E. Leach and D.A. Laycock, Cambridge: University Press, 1983, 10

26 G.W. Ahlström, *Who were the Israelites?* Winona Lake: Eisenbrauns, 1986, 74

27 E. Leach, *ibid.*

28 J. Barr, *History and ideology in the Old Testament. Biblical Studies at the End of a Millennium*, Oxford: University Press, 2000, 86-88

29 J. Alberto Soggin, *op.cit.*, 352

30 J. Barr, *op.cit.*, 102-140. Nid yw Barr yn gwrthwynebu'r defnydd o'r gair 'ideoleg' cyn belled â'i fod yn cael ei ddiffinio'n gywir. Ar un ystyr gellir dweud fod y termau 'ideoleg', 'crefydd' a 'diwinyddiaeth' yn dermau cyfatebol.

31 N.P. Lemche, *Prelude to Israel's Past*, Hendrickson: Massachusetts, 1998, 225-32

32 J. Barr, *op.cit.*, 10

33 G. von Rad, 'Typological Interpretation of the Old Testament', *Essays in Old Testament Interpretation*, ed. Claus Westermann, London: SCM Press, 1963, 25

34 J. Barr, *op.cit.*, 94-95

35 W. Brueggemann, *The Land. Place as Gift, Promise and Challenge*, Minneapolis: Fortress Press, 2nd ed. 2002, 3-5

36 Peter L. Berger, *The Homeless Mind: Modernization and Consciousness*, New York: Random House, 1973. Yn y trafodaethau hyn tynnir gwahaniaeth rhwng *space*, a ddiffinir fel mangre rhyddid, a *place*, man lle digwyddodd pethau a gofir ac sy'n rhoi teimlad o barhad ac o berthyn.

37 *The Sunday Times Magazine*, October 24, 2004, 32-47

38 Hefin Jones, *op.cit.*, 5-6, lle dyfynnir *a need for extreme caution, a sense of the appalling vastness and complexity of the forces that can be unleashed and of the egg-shell delicacy of the arrangements that can be upset* o Barbara Ward a René Dubos, *Only One Earth*, Harmondsworth: Penguin, 1972

39 Gw. W.D. Davies, *The Gospel and the Land*, Berkeley: University of California, 1974

## DARLITHIAU D J JAMES LECTURES

| | | |
|---|---|---|
| 1961 | Bleddyn Roberts | Sôn am Achub |
| 1962 | E T Davies | Religion in the Industrial Revolution in South Wales |
| 1963 | W T Pennar Davies | Rhwng Chwedl a Chredo |
| 1964 | D R Griffiths | The New Testament and the Roman State |
| 1965 | Griffith T Roberts | Dadleuon Methodistiaeth Gynnar |
| 1966 | Nantlais Williams | Faith Facing Facts |
| 1967 | Gwynfryn Richards | Gwir a Diogel Obaith |
| 1968 | W D Davies | The Gospel and the Land |
| 1969 | D Eirwyn Morgan | Bedydd – Cred ac Arfer |
| 1970 | O E Evans | Saints in Christ Jesus |
| 1971 | James Humphreys | Yr Argyfwng Cred |
| 1972 | John R Richards | Jesus – Son of God Son of Man |
| 1973 | Maurice Loader | Yr Epistol at y Galatiaid |
| 1975 | G Henton Davies | The Old Testament as a Whole |
| 1977 | Gwilym R Tilsley | Crefydd y Beirdd |
| 1979 | S Ifor Enoch | Jesus in the Twentieth Century |
| 1981 | David Protheroe Davies | Gwir Dduw o Wir Dduw |
| 1984 | Iorwerth Jones | Recent Revelation Theology |
| 1986 | Dafydd G Davies | Canon y Testament Newydd – ei ffurfiad a'i genadwri |
| 1988 | Islwyn Blythin | Religion and Methodology: Past and Present |
| 1990 | E ap Nefydd Roberts | Diwinyddiaeth Fugeiliol: ei seiliau a'u hegwyddorion |
| 1992 | Cledan Mears | Marriage and Divorce: some moral anomalies |
| 1994 | R Tudur Jones | Teyrnas Crist a'r Tywyllwch yng Nghymru |
| 1996 | D Hugh Matthews | The Church in the New Testament |
| 1998 | Martin H F Forward | Gods, Guides and Gurus: Theological Reflections on Travels with my Aunt |
| 2000 | Hefin Jones | Crefydd, Y Cread a Chadwraeth |
| 2002 | Stephen Nantlais Williams | Two Thousand Years on: What is Truth? |

Darlith Pantyfedwen
Pantyfedwen Lecture

© Gwilym H Jones

2005

ISBN 0 903878 90 9